
# THE FATAL 5 EXPLAINED...

NEW DRIVERS
GET 6 OR MORE PENALTY POINTS WITHIN 2 YEARS OF PASSING YOUR TEST & LOSE YOUR LICENCE

## WHILST DRIVING "UNDER THE INFLUENCE" YOU COULD KILL OR SERIOUSLY INJURE YOURSELF OR OTHERS.




If you choose to drive under the influence of drink or drugs you risk being one of the 100,000 drink or drug drivers caught every year, who face a minimum 12 month ban, a large fine, a criminal record and even imprisonment.


Be aware that many prescription or over the counter medicines can also impair your ability to drive. If you're taking these, talk to your doctor, pharmacist or healthcare professional before driving. The limits for all illegal drugs are extremely low – taking even a very small amount could put you over the limit.

## KILL YOUR SPEED. YOU'RE TWICE AS LIKELY TO KILL SOMEONE YOU HIT AT 35MPH THAN YOU ARE AT 30MPH.

Know the speed limits, look for signs. Speeding will not get you there any quicker and it substantially increases the risk of a fatal collision.

A 1mph cut in average speed can reduce the collision rate by 5%.

A Fixed Penalty will cost you a maximum of £100 and 3 points on your licence. But, if it's referred to Court, the fine could increase to £1000, or £2500 for a motorway offence and up to 6 points.




For more information on the FATAL 5 contact your Road Safety Officer.
Contact details can be found at www.roadsafetywales.org.uk

## A VEHICLE CAN BECOME A LETHAL WEAPON WHEN DRIVEN CARELESSLY.

At best anti-social, at worst life threatening, careless driving could be:

- Driving too close to the vehicle in front
- Failing to obey traffic signs or road markings
- Overtaking to push into a queue of traffic
- Hogging the middle or outside lanes
- Speeding
- Wheel-spins, handbrake turns and other careless manoeuvres.



A Fixed Penalty will get you a £100 fine and 3 points on your licence. But, cause a death by careless driving, and you could get up to 5 years in prison, and disqualification for at least a year. Cause a death by dangerous driving and you could get up to 14 years in prison, and disqualification for at least 2 years.

## BELT UP, YOU'RE TWICE AS LIKELY TO DIE IF YOU DON'T.

Not wearing a seatbelt can be a fatal decision even on short, familiar journeys and at low speeds.

As a driver you are responsible for ensuring that passengers under the age of 14 are wearing a seatbelt, or using the correct child restraint for their height and age.

The Penalty for not wearing a seatbelt is a £100 on-the-spot fine. If prosecuted, the maximum fine is £500.





## SWITCH OFF BEFORE YOU DRIVE OFF.

You are 4 times more likely to crash if you use a mobile phone while driving. Whatever you're doing with it.

Take your eyes off the road to glance at a screen for just 4.6 seconds at 30mph, and you'll travel 63m (207 ft), or the length of almost 6 double decker buses.

The consequences of using your phone behind the wheel are a £200 fine and 6 points on your licence. And if you cause a death, you could face up to 14 years in prison, and disqualification for a minimum of for 2 years.

No call or text is that important.





Produced by
Road Safety Wales
02920 250600


# GYRRWCH YN DDIOGEL

## COFIWCH Y 5 ANGHEUOL


| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|
| PEIDIWCH Â GYRRU DAN DDYLANWAD | LLEIHEWCH EICH CYFLYMDER | PEIDIWCH Â GYRRU'N DDIOFAL | GWISGWCH EICH GWREGYS | DIFFODDWCH EICH FFÔN SYMUDOL |

Cafodd y 5 ANGHEUOL ei ddatblygu'n wreiddiol gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru'n defnyddio'r syniad i godi ymwybyddiaeth o 5 prif achos damweiniau ac anafiadau ar y ffyrdd yng Nghymru.

# Y 5 ANGHEUOL ...

**GYRWYR NEWYDD**
OS YDYCH YN CAEL 6 PHWYNT COSB NEU FWY O FEWN 2 FLYNEDD I BASIO EICH PRAWF GYRRU, BYDDWCH YN
**COLLI EICH TRWYDDED**

## OS YDYCH YN GYRRU "O DAN DDYLANWAD" GALLECH LADD NEU ACHOSI ANAF DIFRIFOL I CHI EICH HUNAN NEU I ERAILL.





Os dewiswch yrru dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, gallech fod yn un o'r 100,000 o yrwyr meddw neu yrwyr dan ddylanwad cyffuriau sy'n cael eu dal bob blwyddyn. Mae'r gyrwyr hyn yn wynebu cael eu gwahardd rhag gyrru am 12 mis, dirwy fawr, record droseddol neu hyd yn oed garchar.

Byddwch yn ymwybodol y gall nifer o feddyginiaethau presgripsiwn neu dros y cownter hefyd amharu ar eich gallu i yrru. Os ydych yn cymryd meddyginiaeth o'r fath, gwnewch yn siŵr eich bod yn trafod gyda'ch meddyg, fferyllydd neu weithiwr proffesiynol gofal iechyd cyn i chi fentro gyrru. Mae'r terfynau ar gyfer pob math o gyffuriau anghyfreithlon yn isel iawn – gallai cymryd dim ond ychydig iawn olygu eich bod dros y terfyn.

## LLEIHEWCH EICH CYFLYMDER. RYDYCH DDWYWAITH YN FWY TEBYGOL O LADD RHYWUN OS GWNEWCH CHI EU TARO WRTH DEITHIO AR GYFLYMDER O 35MYA O'I GYMHARU Â 30MYA.

ARAF SLOW

Byddwch yn ymwybodol o'r cyfyngiadau cyflymder, edrychwch am arwyddion. Ni fydd goryrru yn eich helpu i gyrraedd pen y daith yn gynt, a gallai gynyddu'n sylweddol eich siawns o gael damwain angheuol.




Gallai lleihau eich cyflymder ar gyfartaledd o 1mya leihau'r gyfradd ddamweiniau 5%.

Bydd Cosb Benodol yn costio uchafswm o £100 a 3 phwynt ar eich trwydded. Ond, os yw'r achos yn cael ei gyfeirio i'r Llys, gallai'r ddirwy gynyddu i £1,000, neu £2,500 os oedd y drosedd ar y draffordd, a hyd at 6 phwynt.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y **5 ANGHEUOL** cysylltwch â'ch Swyddog Diogelwch Ffordd.
Mae'r manylion cysylltu i'w cael ar www.roadsafetywales.org.uk

## GALL CERBYD FOD YN ARF ANGHEUOL OS YW'N CAEL EI YRRU'N DDIOFAL.

Ar y gorau mae'n ymddygiad gwrthgymdeithasol, ar y gwaethaf gallai beryglu bywydau.
Mae gyrru'n ddiofal yn cynnwys:

- Gyrru'n rhy agos at y cerbyd o'ch blaen
- Peidio â chydymffurfio ag arwyddion traffig neu farciau ffordd
- Goddiweddyd er mwyn gwthio i mewn i giw o draffig
- Gwrthod gadael y lôn ganol neu'r lonydd allanol
- Goryrru
- Dangos eich hun wrth yrru.



Trosedd cosb benodol, £100 o ddirwy a 3 phwynt ar eich trwydded. Ond, os yw eich gyrru diofal yn achosi marwolaeth, gallech wynebu 5 mlynedd o garchar, a chael eich gwahardd rhag gyrru am flwyddyn o leiaf. Os ydych yn achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus, gallech wynebu hyd at 14 mlynedd o garchar, a chael eich gwahardd rhag gyrru am 2 flynedd o leiaf.

## GWISGWCH EICH GWREGYS. RYDYCH DDWYWAITH YN FWY TEBYGOL O FARW OS NA WNEWCH CHI.

Gall peidio â gwisgo gwregys fod yn benderfyniad angheuol, hyd yn oed ar deithiau byr, cyfarwydd ac wrth deithio ar gyflymder isel.

Fel y gyrrwr, chi sy'n gyfrifol am sicrhau fod teithwyr dan 14 oed yn gwisgo gwregys, neu'n defnyddio'r sedd plentyn cywir ar gyfer oedran a thaldra'r plentyn.


Y gosb am beidio â gwisgo gwregys yw dirwy o £100 yn y fan a'r lle.
Os cewch eich erlyn, gallech wynebu dirwy o hyd at £500.




## DIFFODDWCH EICH FFÔN CYN CYCHWYN.

Rydych 4 gwaith yn fwy tebygol o gael damwain os ydych yn defnyddio eich ffôn symudol wrth yrru. Beth bynnag ydych yn ei wneud â'ch ffôn.

Os nad ydych yn canolbwyntio ar y ffordd er mwyn edrych ar sgrin eich ffôn am 4.6 eiliad yn unig wrth yrru ar gyflymder o 30mya, byddwch yn teithio 63m (207 troedfedd), neu hyd bron i 6 bws dau lawr.




Gallai defnyddio eich ffôn symudol wrth yrru arwain at ddirwy o £200 a 6 phwynt ar eich trwydded. Os yw'r drosedd yn achosi marwolaeth rhywun, gallech wynebu hyd at 14 mlynedd yn y carchar a chael eich gwahardd rhag gyrru am 2 flynedd o leiaf.

Nid yw'r un alwad na neges werth hynny.

Cynhyrchwyd gan
Diogelwch Ffyrdd Cymru
02920 250600

# STAY ALIVE

## GET TO KNOW THE FATAL 5

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|
| DON'T DRINK/DRUG DRIVE | KILL YOUR SPEED | DON'T GET CARELESS | BELT UP | SWITCH IT OFF |

ARAF SLOW

Originally developed by North Wales Police, the **FATAL 5** is brought to you by Road Safety Wales to increase awareness of the 5 main causes of road traffic collisions and injuries in Wales.